# Cadw sêl, selio a llofnodi dogfennau

**Cadw sêl:**

Bydd sêl gyffredin Llais yn cael ei chadw mewn man diogel gan Ysgrifennydd Bwrdd Llais. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynghori ar y defnydd priodol o sêl gyffredin y sefydliad a bydd yn trefnu selio dogfennau, yn ôl yr angen.

Defnyddir sêl gyffredin Llais yn bennaf i selio dogfennau cyfreithiol megis trosglwyddo tir, cytundebau prydles a chontractau pwysig/allweddol eraill. Dim ond os yw'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd yn cael ei selio, neu os yw trafodiad neu weithgaredd y mae'r ddogfen yn ymwneud ag ef wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn ystod ei wneud penderfyniadau ac amcanion strategol y cytunwyd arnynt y gellir gosod y sêl i ddogfen.

**Selio dogfennau**:

Lle bydd Bwrdd Llais yn penderfynu neu fod cyflenwr neu gontractwr yn mynnu bod dogfen yn cael ei selio, bydd y person awdurdodedig sy'n gwneud cais neu'n argymell selio dogfen yn sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud a bod y dogfennau'n gywir gyda'r cyngor cyfreithiol gofynnol a chyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd.

Bydd y sêl gyffredin yn cael ei gosod o dan reolaeth Ysgrifennydd y Bwrdd drwy broses o'r enw Panel Selio.  Bydd angen i ddau lofnodwr awdurdodedig alluogi gosod sêl a bod yn dyst i'w gosod. Rhaid i'r llofnodwyr fod yn wahanol i'r uwch berson awdurdodedig sy'n argymhelli/gofyn am y selio.

Yr unig lofnodwyr awdurdodedig ar gyfer tystio i osod sêl fydd:

- Cadeirydd Llais neu ddirprwy enwebedig (y mae'n rhaid iddynt fod yn gyfarwyddwr anweithredol).
- Prif Weithredwr Llais neu ddirprwy enwebedig.

Mae'n ofynnol i'r ddau lofnodwr awdurdodedig alluogi'r defnydd o'r sêl gyffredin.

**Cofrestr selio:**

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau bod cofrestr yn cael ei chadw lle bydd ef/hi, neu reolwr arall a awdurdodir ganddynt, yn cofnodi cofnod o selio pob dogfen, a fydd yn cynnwys llofnodion y llofnodwyr/tystion awdurdodedig.

Rhaid i bob cofnod yn y gofrestr gael ei lofnodi gan y personau a gymeradwyodd ac awdurdododd y ddogfen ac a fu'n dyst i osod y sêl. Cyflwynir adroddiad o'r holl seliau i'r Bwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn mewn Cyfarfod Bwrdd yn gyhoeddus.

**Llofnod Dogfennau:**

Pan fo angen llofnod ar gyfer unrhyw ddogfen sy'n gysylltiedig ag achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â Llais yn ychwanegol at osod y sêl, caiff ei lofnodi gan y Prif Weithredwr yn unol â Chynllun Dirprwyo Llais a'i Matrics Awdurdodi, ac eithrio pan fo'r Bwrdd wedi awdurdodi person arall neu wedi cael ei gyfarwyddo fel arall i ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i berson arall ddarparu llofnod.

Gall y Prif Weithredwr neu'r swyddogion enwebedig gael eu hawdurdodi gan y Bwrdd i lofnodi ar ran Llais unrhyw gytundeb neu ddogfen arall yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Bwrdd ac yn unol â chynllun dirprwyo Llais.